CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD BLYNYDDOL O'R CYNGOR
CYNHALIWYD AR 25 MAI 2022 AM 7.30y.h.

Y Maer, y Cyng. Gareth John oedd yn llywyddu dros y cyfarfod blynyddol o Gyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Neuadd Ddinesig San Pedr ac ar gyswllt fideo ar ddydd Mercher 25 Mai 2022, am 7.30y.h.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Heledd ap Gwynfor, Dai Evans, Peter Hughes Griffiths, Marc Ingram, Angharad Jones Leefe, Gareth John, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Ioan Matthews, Miriam Moules, Emlyn Schiavone, Russell Sparks, Jeff Thomas, Wyn Thomas a Barry Williams.

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Emma Smith – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid
Mrs Eleri James – Swyddog Gweinyddol ac Ysgrifenyddes y Maer
Mrs Catrin Llwyd – Cyfieithydd

Roedd dau aelod or cyhoedd yn bresennol ar y cyswllt fideo.

Croesawodd y Cyng. Gareth John, y Maer yn ymddeol, bawb i gyfarfod cyntaf tymor newydd y Cyngor, gyda chroeso arbennig es i'r pum aelod newydd. Dywedodd y Cyng. Diolchodd John hefyd i'r Cyngor am yr anrhydedd o wisgo'r gadwyn a gwasanaethu fel Maer y Dref am y ddwy flynedd ddiwethaf.

1. Ethol Maer Tref Caerfyrddin am 2022/23 a'r Datganiad o Dderbyn Swydd.

Ar gynnig y Cyng. Angharad Jones Leefe, eiliwyd gan y Cyng. Ioan Matthews, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol, ethol y Cynghorydd Miriam Moules yn Faer Tref Caerfyrddin am y flwyddyn 2022/2023.

Gwnaeth y Maer ymadawol y Cyng. Gareth John arwisgo'r Cyng. Miriam Moules gyda'i chadwyn o swydd.

Diolchodd y Maer newydd, y Cyng. Miriam Moules i'r aelodau am ymddiried ynddi i wasanaethu fel Maer a chymerodd y gadair.

2. Ethol Dirprwy Faer ar gyfer 2022/23 a'r Datgniad o Dderbyn Swydd.

Ar gynnig y Cyng. Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Arwel Lloyd, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol bod y Cyng. Wyn Thomas yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2022/23.

Gwaneth y Maer, y Cyng. Miriam Moules arwisgo'r Cyng. Wyn Thomas gyda chadwyn y swydd.

3. Ethol Siryf y Dref ar gyfer 2022/23 a Datganiad o Dderbyn Swydd.

DRAFT

Ar gynnig y Cyng. Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyng. Arwel Lloyd, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol bod y Cyng. Emlyn Schiavone yn cael ei benodi yn Siryf y Dref ar gyfer 2022/23.

Arwisgodd y Maer y Cyng. Emlyn Schiavone gyda chadwyn ei swydd.

Adroddiad Clerc y Dref

4. Strwythurau ac Aelodaeth Pwyllgorau

Cynigiodd y Cyng. Ioan Matthews fod y strwythur tri phwyllgor presennol yn aros yr un fath am y flwyddyn i ddod ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths. Roedd pawb o blaid, a **PHENDERFYNWYD** bod strwythur pwyllgorau'r Pwyllgorau Cyllid, Dibenion Cyffredinol a Rheoli yn aros yr un fath, gyda pharhad un is-bwyllgor – Siân Johnstone - Amgylcheddol a Masnach Deg.

Aelodaeth Pwyllgorau

Yn dilyn trafodaeth ymysg yr aelodau, cynigwyd gan y Cyng. Gareth John, eiliwyd gan y Cyng. Angharad Jones Leefe a **PHENDERFYNWYD** y byddai aelodaeth y pwyllgorau sefydlog fel a ganlyn:

(i) Pwyllgor Dibenion Cyffredinol:

- Cyng. Dai Evans – Ward y Gorllewin
- Cyng. Peter Hughes Griffiths – Ward y Gogledd
- Cyng. Angharad Jones Leefe – Ward y Gogledd
- Cyng. Alun Lenny – Ward y De
- Cyng. Arwel Lloyd – Ward y Gorllewin
- Cyng. Miriam Moules – Ward y Gogledd
- Cyng. Russell Sparks – Ward y Gorllewin
- Cyng. Barry Williams – Ward y De

(ii) Pwyllgor Cyllid:

- Cyng. Heledd ap Gwynfor – Ward y Gogledd
- Cyng. Rev Tom Defis – Ward y Gorllewin
- Cyng. Gareth John – Ward y De
- Cyng. Andy King – Ward y Gorllewin
- Cyng. Jeffrey Thomas – Ward y Gogledd
- Cyng. Dr Ioan Matthews – Ward y Gorllewin
- Cyng. Emlyn Schiavone – Ward y Gorllewin
- Cyng. Wyn Thomas - Ward y De

(iii) Pwyllgor Rheoli: Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cynnwys y Maer, Y Ddirprwy Faer, Siryf, Maer blaenorol diwethaf, a Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyllid.

DRAFT

(iv) Is-bwyllgor Siân Johnstone.

Cynigiodd y Cyng. Arwel Lloyd, y dylid penodi y Cyng. Heledd ap Gwynfor yn ogystal â'r Cyng. Tom Defis a Miriam Moules, i'r is-bwyllgor ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths. Roedd pawb o blaid a **PHENDERFYNWYD** y penodiad.

5. Gweithdrefn Pwerau Brys

Cynigwyd gan y Cyng. Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng. Angharad Jones Leefe a **PHENDERFYNWYD** bod y Weithdrefn Pwerau Argyfwng yn parhau heb ei newid ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2022/23.

6. Gweithdrefn Apeliadau.

Cynigwyd gan y Cyng. Angharad Jones Leefe, eiliwyd gan y Cyng. Gareth John a **PHENDERFYNWYD** bod y Drefn Apeliadau yn parhau heb ei newid ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2022/23.

7. Pwyllgorau a Grwpiau eraill y Cyngor

Cynigiodd y Cyng. Arwel Lloyd y dylid penodi'r Cyng. Dai Evans i Ŵyl Afon Caerfyrddin a Chymdeithas Glan yr Afon Caerfyrddin. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gareth John, a **CHYTUNWYD** ar y penodiad. **PENDERFYNWYD** bod y gynrychiolaeth ar weddill pwyllgorau a grwpiau'r cyngor yn aros heb ei newid neu fel y'i diwygiwyd uchod ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2022/23, fel a ganlyn:

	Grŵp	**Aelod(au)**
(1)	Cadeirydd Pwyllgor Mordwyo'r Bar, Caerfyrddin	Maer a Dirprwy Faer
(2)	Carmarthen River Festival	Y Cyng. Dai Evans
(3)	Cymdeithas Glan yr Afon Caerfyrddin	Y Cyng. Dai Evans
(4)	Panel Beirniadu Gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin	Maer, Dirprwy Faer a'r Siryff.
(5)	Cadeirydd Grŵp Llywio Ras Hwyl y Maer	Maer a Dirprwy Faer
(6)	Cystadleuaeth Safle Gorau (Pride of Place)	Maer, Dirprwy Faer, Siryff

8. Dyddiadau Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau 2022/23

Cynigiodd y Cyng. Ioan Matthews newid i'r dyddiadau a awgrymwyd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor er mwyn osgoi unrhyw gyfarfodydd Cyngor yn ystod gwyliau hanner tymor. Eiliwyd cynnig y Cyng. Matthews gan y Cyng. Wyn Thomas, roedd pawb o blaid a **PHENDERFYNWYD** y mater.

9. Cynrychiolwyr ar gyrff allanol 2022/23.

PENDERFYNWYD y dylai cynrychiolaeth ar gyrff allanol ar gyfer y flwyddyn i ddod fod fel a ganlyn:

a) Grwpiau a Chymdeithasau

	Grŵp	Aelod(au)
(1)	Siambr Fasnach Caerfyrddin	Maer, Cynghowyr Russell Sparks a Wyn Thomas a staff fel sy'n briodol.
(2)	Cymdeithas Ddinesig Caerfyrddin	Cyng. Peter Hughes Griffiths
(3)	Tywyswyr Tref Caerfyrddin – yn cynorthwyo'r Ganolfan Croeso sydd bellach yn rhedeg y cynllun	Cynghorwyr Dai Evans ac Alun Lenny
(4)	Fforwm Adfywio Tref Caerfyrddin	Cyng. Jeff Thomas
(5)	Cymdeithas Gefeillio Tref Caerfyrddin	Cyng. Peter Hughes Griffiths
(6)	Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin	Cyng. Barry Williams
(7)	Prosiect Ieuenctid Dr Mz	Maer a Chynghorwyr Emlyn Schiavone a Jeff Thomas
(8)	Masnach Deg - Cyfarfodydd Sirol	Cynghorwyr Tom Defis a Miriam Moules
(9)	Masnach Deg - Cyfarfodydd Cyhoeddus y Dref	Cynghorwyr Tom Defis & Miriam Moules
(10)	Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned Mwyaf De Cymru	Maer a'r Clerc
(11)	Menter Gorllewin Sir Gâr	Cyng. Arwel Lloyd
(12)	Shop Mobility	Cyng. Miriam Moules ac eraill i'w cadarnhau
(13)	Pwyllgor Rheoli Prosiect Teulu Tŷ Ni a Tŷ Hapus	Cynghorwyr Emlyn Schiavone a Jeff Thomas
(14)	Un Llais Cymru (gan gynnwys mynychu cyfarfodydd cangen y sir a chynhadledd/ cyfarfod blynyddol)	I'w gadarnhau
(15)	Grŵp Cyngorau Lleol Mwyaf Un Llais Cymru	I'w gadarnhau

Cyrff Llywodraethu Ysgolion:

Ysgol	Cynrychiolydd Cymunedol	Tymor yn dod i ben:
Ysgol Tre Ioan	Dr Baba Gana i barhau	03.09.25
Ysgol Model	Cyng. Dai Evans	Tymor newydd
Ysgol Myrddin	Cyng. Miriam Moules	01.10.25
Ysgol Parc Waun Deq	Cyng.Barry Williams	Tymor newydd
Ysgol Gatholig y Santes Fair	I'w gadarnhau	
Ysgol y Dderwen	Cllr Dr Ioan Matthews	17.01.24

10. Hyfforddiant Aelodau

PENDERFYNWYD bod Siryf y Dref, y Cyng. Emlyn Schiavone yn cael ei benodi'n bencampwr hyfforddi ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2022/23.

11. Côd Ymddygiad

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r Côd Ymddygiad, sydd heb ei newid, a'i fabwysiadu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

12. **Polisïau'r Cyngor**

a) Rheolau Sefydlog

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2022/23.

b) Rheoliadau Ariannol

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2022/23.

b) Adroddiad Blynyddol

PENDERFYNWYD y dylid symud hyn ymlaen drwy'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol.

c) Cynllun Hyfforddi

PENDERFYNWYD bwrw ymlaen â hyn drwy'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol.

d) Adroddiad Bioamrywiaeth

PENDERFYNWYD y dylid bwrw ymlaen â hyn trwy gyfrwng Is-Bwyllgor Sian Johnstone a Phwyllgor Dibenion Cyffredinol.

13. **Polisïau Eraill y Cyngor**

PENDERFYNWYD ail-fabwysiadu polisïau eraill y Cyngor a'u diwygio yn ôl yr angen yn y pwyllgor priodol.

14. **Lwfansau aelodau**

PENDERFYNWYD cyfeirio'r ystyriaeth o adroddiad diweddaraf PACGA i'r Pwyllgor Rheoli.

15. **Sedd Wag Cynghorydd**

Yn dilyn yr etholiadau diweddar mae un sedd wag ar gyfer cynghorydd yn Ward y Gogledd ac ystyriodd yr Aelodau a ddylid llenwi hon drwy gyfethol. Cynigiodd y Cyng. Gareth John y dylid cychwyn ar y broses gyfethol ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, roedd pawb o blaid a **PHENDERFYNWYD** y mater.

Caewyd y cyfarfod am 20.10

DRAFT